# Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol ar gyfer GIG Cymru

## Pam rydym yn datblygu cynllun

Mae'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol yn gynllun 10 mlynedd i gefnogi GIG Cymru: i recriwtio unigolion o safon uchel i'r proffesiwn, i hyfforddi mwy o nyrsys, i gadw ein gweithlu nyrsio ymroddedig ac i drawsnewid y ffordd y mae nyrsys yn gweithio.

Nyrsys yw'r grŵp mwyaf o staff yn GIG Cymru ac maent yn cynrychioli tua 40% o'r gweithlu, yn gweithio ar draws ystod o arbenigeddau ac amgylcheddau gan gynnwys ysbytai a lleoliadau cymunedol. Ar draws GIG Cymru, mae pob sefydliad yn profi pwysau gwasanaeth digynsail, wedi'i gymhlethu gan heriau gweithlu.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r proffesiwn nyrsio yn cynnwys.

- Prinder nyrsys cofrestredig.
- Nifer cynyddol o gleifion â chyd-forbidrwydd
- Cynnydd yn y galw am ofal a gwasanaethau
- Poblogaeth sy'n heneiddio.
- Nifer y nyrsys profiadol yn lleihau

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar recriwtio a chadw nyrsys, lles a gallant arwain at orweithio. Mae prinder a gorweithio yn arwain at lefelau straen uwch ymhlith nyrsys, gan arwain at lai o foddhad swydd a methu cyflawni anghenion cleifion.

Nod y cynllun yw datblygu atebion arloesol i drawsnewid y proffesiwn nyrsio er mwyn sicrhau gweithlu addas i fodloni gofynion y gwasanaeth a'r gweithlu yn y dyfodol.

## Camau a gymerwyd i ddatblygu'r cynllun.




Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dull tair colofn AaGIC, sef gwybodaeth a dadansoddi'r gweithlu, arloesedd ymchwil, tystiolaeth ac ymgysylltu. Cwblhawyd dadansoddiad ac adolygiad gennym o ddata'r gweithlu nyrsio ochr yn ochr â datblygu model galw a chyflenwad.

Adolygwyd nifer o adroddiadau a phapurau gennym i nodi arfer gorau a'r sbardunau strategol a fydd yn effeithio ar y gweithlu nyrsio dros y 10 mlynedd nesaf.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei greu ar y cyd, rydym wedi ymgysylltu dros ddau gam. Rydym wedi gwrando ar farn nyrsys, y gweithlu ehangach, myfyrwyr, cleifion, gofalwyr teuluoedd, a'r cyhoedd. Cyfrannodd y cyfranogwyr bron i 3,000 o syniadau, sylwadau, a phleidleisiau yng ngham 1 a bron i 1,650 yng ngham 2. [1]

Yn ogystal, cynhaliwyd tri digwyddiad bord gron i lywio'r camau gweithredu, gyda myfyrwyr, partneriaid addysg ac uwch arweinwyr nyrsio gan gynnwys Prif Swyddogion Nyrsio'r pum gwlad neu eu dirprwyon.

Trwy ymgysylltu fe wnaethom ofyn nifer o gwestiynau a chrynhoi'r safbwyntiau a'r syniadau a rannwyd gennych o dan y penawdau **Gwerthfawrogwch Ni, Datblygwch Ni, Ymddiried ynom, Cefnogwch Ni , Helpwch ni i ddarparu gofal effeithiol i gleifion .** Mae'r safbwyntiau a'r syniadau y gwnaethoch chi eu rhannu â ni drwy'r broses ymgysylltu wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| Gwerthfawrogwch ni | Gwobrwyo'n deg, dathlu'n gyhoeddus, gwerthfawrogi cyfraniadau nyrsys, a hyrwyddo | Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn gryf iawn (96-100%), gyda sylwadau'n ceisio egluro, ehangu a darparu manylion, ond yn gyffredinol yn cynnig cefnogaeth ymhlyg neu amlwg i'r datganiad strategol; Roedd y drafodaeth yn y sylwadau'n canolbwyntio ar yr angen am adolygiad o'r Agenda ar gyfer Newid, cyflog teg, a rolau ymarfer uwch, y mae pob un ohonynt |
| Datblygwch ni | Darparu cyllid ar gyfer astudio a datblygu, datblygu rolau a llwybrau newydd, a chynnig | Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn unfrydol (100%), gydag adborth ysgrifenedig yn gyffredinol yn manylu ar fanylion unigol y datganiadau, ac yn ceisio egluro'r rhain neu gyflwyno heriau o ran eu gweithredu. Roedd y drafodaeth yn ymwneud ag amser wedi'i ddiogelu, gwahaniaethau rhanbarthol, neu awgrymiadau ynghylch llwybrau gyrfaoedd, ymysg eraill; Cynigiodd y dorf nifer o awgrymiadau penodol (a rhai ohonynt wedi dod i'r amlwg yn y sgwrs gyntaf), megis cefnogaeth gyda datblygu sgiliau |
| Ymddiriedwch ynom ni | Grymuso'r gweithlu, ymgynghori â nhw wrth wneud | Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn unfrydol (100%), gyda sylwadau ysgrifenedig yn beirniadu'r ffordd y mae'r system yn gweithredu ar hyn o bryd, neu'n amlygu anawsterau wrth roi'r syniadau hyn ar waith; Er hynny, roedd trafodaeth gyfyngedig yn codi'r materion ynghylch diffyg |

[1] Y Sgwrs Fawr Nyrsio yng Nghymru – yn glyfar gyda'n gilydd

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniadau, eu caniatáu i | ymateb (digonol) i chwythu'r chwiban, adroddiad Datix, neu bryderon eraill y mae staff |
| Cefnogwch ni | Darparu cyfleusterau swyddogaethol, mynediad at wasanaethau llesiant, gwell cydbwysedd bywyd-gwaith, ôl- | Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau yn unfrydol 100%), gyda sylwadau yn beirniadu arferion presennol; Clywsom alwadau am fwy o atebolrwydd, effeithiolrwydd, modelau rôl, a phresenoldeb gan arweinwyr; mynd i'r afael â phrinder lleoedd ac arferion egwyl; ac awgrymiadau neu gyfeiriadau ysgrifenedig at natur ymosodol cleifion; Roedd un |
| Helpwch ni i ddarparu gofal effeithiol i gleifion | Darparu adnoddau, offer, seilwaith, systemau digidol | Roedd y gefnogaeth i'r egin syniadau unwaith eto'n unfrydol (100%), gyda sylwadau'n ymwneud yn bennaf â'r angen brys i fynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu targedu gan y datganiadau strategol hyn. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr angen am systemau gwybodaeth integredig, rhyng-gysylltiedig, effeithlon, symudol a hawdd eu defnyddio, a chofnodion cleifion hygyrch, yn ogystal â seilwaith ac adeiladau sy'n cynnig digon o |

Mae'r data, yr ymchwil a'r adborth o'r ymgysylltu wedi'u cydgysylltu, eu dadansoddi a'u datblygu'n **ugain o gamau gweithredu strategol**. Bydd y camau gweithredu hyn yn darparu'r sylfaen ar gyfer creu cynllun cyflawni i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu nyrsio presennol ac yn y dyfodol dros y 10 mlynedd nesaf.

# Y Camau Nesaf

Cymerwch ran yn ein hymgynghoriad, dyma'ch cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad camau gweithredu'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol. Byddem yn croesawu petaech yn dweud wrthym beth sy'n **gryf**, beth sydd o'i le a beth sydd ar goll .

Trwy'r ymgynghoriad byddwn yn disgrifio'r **gweithredu** strategol; y **dystiolaeth** i'w gefnogi; **effaith** y gweithredu; a **phwy** sy'n gyfrifol am ei arwain.

Mae sawl ffordd y gallwch chi gymryd rhan. Ewch i'n tudalen we lle cewch ragor o fanylion a gwybodaeth. [Cynllun gweithlu nyrsio strategol - AaGIC (nhs.wales)]

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn adolygu ac yn myfyrio ar yr holl gyfraniadau a gawn, yn diwygio'r camau gweithredu yn ôl yr angen, ac yn datblygu cynllun cyflawni.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chefnogi datblygiad y Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol ar gyfer GIG Cymru.